



Polisi Iaith Gymraeg, 2022

1. Cyflwyniad

Llunnir a chyhoeddir y Polisi Iaith hwn yn unol ag ymrwymiad Cymdeithas Ddysgedig Cymru tuag at yr Iaith Gymraeg. Mae gan y Gymdeithas hunaniaeth ddwyieithog ac rydym yn cynnig sawl gwasanaeth Gymraeg i'n staff, i'n cymrodorion a'n rhanddeiliad. Rydd ein statws fel academi genedlaethol Cymru ar gyfer y celfyddydau a'r gwyddorau gyfle i ni gyfrannu tuag at feithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o hanes a gwerth diwylliannol y Gymraeg. Daw ein Cymrodoriaeth ag arbenigwyr at ei gilydd o bob maes academiaidd gan gynnig cyfle i ni gyfrannu tuag at ymchwil cyfredol parthed y Gymraeg a materion sy'n ymwneud a'r Gymraeg.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hamcanion tymor byr a hir o ran y Gymraeg. Rydym wedi defnyddio'r Safonau Iaith fel fframwaith i lunio ein polisi, er nad yw'n ofynnol i'r Gymdeithas Ddysgedig gydymffurfio'n gyfreithiol gyda'r Safonau. Dyma felly ddatganiad clir o'n hymrwymiad tuag at y Gymraeg.

2. Amcanion

Diben y Polisi yw rhoi statws a dilysrwydd i'r Gymraeg yng ngweithdrefnau a gweithgareddau'r Gymdeithas a nodi'r dulliau o ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda rhanddeiliaid a/neu gymrodorion. Mae'r Polisi hefyd yn tynnu sylw at ddulliau o hyrwyddo'r ffaith bod y Gymdeithas yn cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn unol â Chymraeg 2050, rhoddwn bwyslais ar ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â chreu seilwaith i gefnogi'r Gymraeg. Byddwn yn datblygu cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg ac i staff a chymrodorion ddefnyddio'r Gymraeg.

Rydym wedi adlewyrchu meysydd allweddol y Safonau Iaith wrth ddatblygu'r

Polisi hwn. Mae'r Polisi felly yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyflenwi Gwasanaethau dwyieithog
- Llunio Polisi
- Gweithredu
- Hybu

3. Cyflenwi Gwasanaethau

3.1. Gohebiaeth ysgrifenedig

- Mae croeso i staff cyflogedig, gwirfoddolwyr, cymrodorion, a'r cyhoedd ohebu â'r Gymdeithas yn Gymraeg. Os oes angen ateb, gwneir hynny yn Gymraeg oni nodir yn wahanol gan awdur yr ohebiaeth.

Erbyn 2023 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys:

- Pan fydd y Gymdeithas yn gohebu a chymrodorion byddant yn gwneud hynny yn ddwyieithog. Parthed gohebiaeth tu allan i Gymru, bydd y Gymdeithas yn defnyddio Cymraeg neu Saesneg fel sydd yn addas.

3.2. Cyfarfodydd a digwyddiadau a drefnir gan y Gymdeithas

- Cynhelir Cyfarfodydd Y Cyngor a'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Gymdeithas yn ddwyieithog, gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael.

Erbyn 2023 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Adolygiad o'r posibilrwydd darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd pwyllgor.
- Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod neu ddigwyddiad sy'n agored i'r holl gymrodorion neu i'r cyhoedd byddwn yn hysbysebu yn yr ohebiaeth ddwyieithog bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod neu'r digwyddiad. Wrth cynllunio cyfarfod, gwneir asesiad o'r angen i ddarparu cyfieithu-ar-y-pryd o Gymraeg i Saesneg.
- Byddwn yn gofyn i unrhyw siaradwyr cyhoeddus a ydynt yn dymuno siarad yn Gymraeg ac os dyna eu dymuniad, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.
- Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei gynhyrchu gan y Gymdeithas a'i arddangos mewn cyfarfod neu ddigwyddiad sy'n agored i'r holl gymrodorion neu'r cyhoedd, ac a drefnwyd gan y Gymdeithas, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwneir ymgais fwriadol i sicrhau bod y naill ddogfen a'r llall ar gael ar yr un pryd. Gwneir yn glir pa iaith y defnyddir yn bennaf mewn pob digwyddiad.

3.3. Cyhoeddi dogfennau a defnyddio ffurflenni

- Mae dogfennau strategol, adroddiadau blynyddol a/neu ffurflenni a lunnir gan y Gymdeithas at ddefnydd darpar gymrodorion, cymrodorion neu'r cyhoedd yn cael eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Mae fersiwn Gymraeg o ffurflen (e.e. cais gan ddarpar gymrodorion) yn cael ei thrin yn yr un modd a fersiwn Saesneg o ffurflen o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen honno (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, yr amser a ganiateir i ymateb i gynnwys y ffurflen neu unrhyw fanylion a nodir ar y ffurflen ymlaen llaw).

Erbyn 2023 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Pan fyddwn yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o ddogfen a/neu ffurflen, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen/ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.
- **Anelir at lunio'r adroddiadau priodol yn ddwyieithog erbyn 2024.**

3.4. Y wefan a chyfryngau cymdeithasol

- Mae rhan helaeth o wefan y Gymdeithas ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Lle mae'r cynnwys yn ddyfyniad o'r Saesneg, fel arfer ni wnaiff cyfieithiad.
- Ceir dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg cyfatebol ar dudalennau Saesneg y wefan.
- Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn defnyddio Cymraeg a Saesneg.

Erbyn 2023 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod y wefan ar gael yn llawn yn y Gymraeg, a bod y cynnwys Cymraeg ar gael yr un pryd a'r cynnwys yn Saesneg.
- Os fydd unigolyn yn gohebu â'r Gymdeithas trwy'r cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg (lle bo gofyn am ymateb).
- Ystyried gosod y Gymraeg uwchben y Saesneg yng ngohebiaeth y Gymdeithas. Ystyried hefyd cael tudalen agoriadol sy'n caniatáu dewis iaith cyn mynd i mewn i'r wefan

3.5. Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg

- Rydym yn hybu'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gennym ac yn ei

hysbysebu yn Gymraeg trwy ein deunydd marchnata ac ar ein gwefan.

Erbyn 2024 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Os byddwn yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn Saesneg, bydd unrhyw gyhoeddusrwydd a gynhyrchir ac a gyhoeddir gennym sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg yn nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

3.6. Deunyddiau Dathlu

- Mae tystysgrifau'r Gymdeithas i'w cael yn ddwyieithog.

Rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Fe fydd blaen pob medal newydd yn ddwyieithog.
- Pan fydd yn bosib, bwriedir ail-ddylunio pob medal iddynt fod yn ddwyieithog.

3.7. Llunio Polisi

- Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfen ymgynghori bydd cyfle i ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Erbyn 2024 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Wrth lunio polisi newydd, neu wrth adolygu neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, bydd y Gymdeithas yn ystyried effeithiau'r penderfyniad sydd ynghlwm â'r polisi ar y Gymraeg. Er enghraifft byddwn yn ystyried sut y gallwn wneud penderfyniad polisi sy'n cael effaith bositif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Byddwn yn rhoi pwyslais wrth ymateb i adroddiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar yr effaith ar y cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.
- Wrth gomisiynu neu lunio gwaith ymchwil sydd yn ymwneud â'r Gymraeg byddwn yn ystyried sut y gellid gwneud penderfyniad neu roi penderfyniad ar waith fydd yn cael effaith bositif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

4. Gweithredu

4.1. Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

- Bwriad y Gymdeithas yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.

Erbyn 2023 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Bydd y Gymdeithas yn gofyn i aelodau staff cyflogedig a ydynt yn dymuno derbyn unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os dyna'u dymuniad, rydym yn darparu unrhyw ffurflenni o'r fath yn Gymraeg.

Erbyn 2024 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Bydd y Gymdeithas yn darparu contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau dwyieithog i'r staff.
- Bydd unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddiant, amcanion perfformiad a/neu gynllun gyrfa ar gael yn Gymraeg os yw'r staff

cyflogedig yn dymuno eu cael yn y Gymraeg.

- Wrth i ni ddatblygu ein polisiau am y gweithle, ein bwriad yw sicrhau eu bod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg er enghraifft: ymddygiad yn y gweithle, neu iechyd a lles yn y gweithle.

4.2. Defnyddio TGCh yn y gweithle

- Mae'r Gymdeithas yn darparu i'r staff meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg hefyd i hwyluso cyfieithu.

4.3. Datblygu sgiliau Cymraeg

Rydym yn ystyried datblygu dulliau o gynnig cyfleoedd i staff a chymrodorion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Erbyn 2023 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Fel rhan o'n rhaglen hyfforddi staff byddwn yn darparu cyfleoedd i staff gael gwersi Cymraeg (sylfaenol – uwch) yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

4.4. Recriwtio

- Pan fyddwn yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, byddwn yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ac yn ei gosod mewn categori, sef naill ai Cymraeg yn hanfodol / angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg wrth benodi rhywun i'r swydd / sgiliau Cymraeg yn ddymunol

/ nid yw sgiliau Gymraeg yn angenrheidiol.

- Os byddwn wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu byddwn yn nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd.
- Mae pob swydd a chyfleoedd i ymaelodi a'r Gymdeithas yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg a chroesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Erbyn 2024 rydym am ddatblygu ein Polisi i gynnwys y canlynol:

- Bydd ffurflenni cais am swyddi neu am ymaelodi â'r Gymdeithas, deunydd esboniadol a disgrifiadau swydd ar gael yn Gymraeg.
Bydd ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad. Os yw unigolyn yn dymuno cael cyfweiliad Gymraeg byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad os nad ydym yn medru cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.
- Pan fyddwn yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw ein penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd neu mewn perthynas â chais i ymaelodi â'r Gymdeithas, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os gafodd y cais ei gyflwyno yn Gymraeg.

5. Hybu

- Mae gan y Gymdeithas rôl yn hybu ymwybyddiaeth ei chymrodorion a'r cyhoedd am yr iaith Gymraeg, gan gynnwys ymwybyddiaeth o hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru.
- Mae'r Gymdeithas hefyd yn annog a chefnogi ymchwil sy'n ymwneud a'r Gymraeg gan ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes yr iaith.

6. Cyfrifoldeb

Mae cyfrifoldeb am y polisi wedi ei osod gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol sy'n atebol i'r Cyngor. Staff cyflogedig y Gymdeithas sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi o ddydd i ddydd dan arweiniad aelod o staff priodol. Bydd y Polisi yn cael ei adolygu yn flynyddol gan bwyllgor monitro.

